Cynllun Adfer Mwynglawdd.

Llwybr Pontrhydfendigaid – Ystrad Fflur – Ffair-Rhos.

Mae'r daith yma'n llawn hanes,- o'r Mynachod i'r porthmyn a Beirdd Ffair Rhos.

Os yw' waliau'n siarad' yn sicr hefyd medr llwybrau siarad gyda hanesion diddorol y daith yma.

Wrth gychwyn o bentre Pontrhydfendigaid am gyfeiriad Ystrad Fflur yn fuan gwelir olion y Mynachod yn enwau y ffermydd,megis Dolebolion a'r Fynachlog Fawr.

Mae'r daith o'r Abaty heibio i Bronberllan a thrwy goed Caemadog i fyny at Y Graig Fach ar gyrion pentre Ffair Rhos yn llawn hanesion llafar gwlad a llen gwerin.

Pan benderfynodd Harri'r 8fed ddiddymu'r mynachglogydd yn 1536,diflanodd nifer o'r Mynachod i leoliadau cyfagos a phellach,ond arhosodd nifer fechan ar ol.Yn ogystal a bod yn ffermwyr a oedd yn arbenigo ar ddefaid (nhw ddaeth a ffermio defaid I'r ardal),roeddent hefyd yn arbenigo ar fragu medd,ac wrth weld y diwedd yn dod,cafwyd sawl noson wyllt!

Byddent yn ymlwybro o'r Fynachlog,nid i gyfeiriad Pontrhydfendigaid,lle byddent yn cael eu gweld,ond yn nhywyllwch nos lan i gyfeirad pentref diarffordd Ffair Rhos drwy goed Caemadog at Y Graig Fach.

Yno,byddent yn cyfarfod a merched y pentre,a dyma yn ol llafar gwlad a llen gwerin oedd cychwyn y traddodiad barddol yn y pentre.Roedd y Mynachod yn ddynion galluog,diwylliedig,yn medru sgrifennu sawl iaith-Lladin,Groeg,Hebraeg yn ogystal a barddoni,a mwy na thebyg bod merched glandeg Ffair Rhos yn anllythrennog ar y cyfan.

A dyna ateb y cwestiwn sydd wedi ei ofyn dro ar ol tro-' Pam fod pentre diarffordd o ryw 2 ddwsin o dai wedi magu cymaint o feirdd,Prifeirdd a llenorion?'

Cewch chi benderfynu!!

Dau Brifardd- W.J. Gruffydd a Dafydd Jones- W.J. yn Brifardd Coronog dwbl ac yn Archdderwydd Cymru o 1984 i 1986.Ychwanegwch hefyd feirdd adnabyddus eraill megis Evan Jenkins,Dafydd Henry Edwards,Islwyn Edwards.Jac Oliver a'r llenor W.J. Edwards,awdur 'Ar Lethrau Ffair Rhos'.Y cyfan wedi bod yn llwyddiannus ar lefel Genedlaethol ac yn awduron cyfrolau Barddoniaeth a llenyddiaeth.

Mae'r traddodiad yn parhau hyd heddiw,gyda nifer o feirdd lleol yn ymarfer y grefft ac yn cael llwyddiant.

Ysgrifennodd y Prifardd Dafydd Jones yr englyn canlynol am bentre Ffair Rhos.

> Ni luniwyd unlle'n lanach,- o ru'r byd
>
> Goror beirdd yw mwyach.
>
> Yn nhir mwnwr a'r mynach
>
> Dihareb o bentre bach.

Nid yw'r daith yn mynd mewn I'r pentre,rydych yn troi'n ymyl Blaenpentre nol am gyfeiriad Pontrhydfendigaid.

Ond ar y sgwar mae tafarn y Teifi-hyd at ddechrau'r ganrif hon y 'Cross Inn' oedd ei enw.Adeiladwyd y dafarn gan y mwyngloddwyr yn y C19 pan oedd y pentre yn anheddiad mwyngloddio prysur yn Esgair Mwyn a Bronberllan.

Tyfodd enw'r pentre o'r marchnadoedd gwlan a sefydlwyd gan fynachod Ystrad Fflur,ac wedi iddynt orffen parhaodd y ffair drwy'r Porthmyn,a datblygodd yn ffair geffylau a gwartheg.Mae dyddiad y ffair yn parhau hyd heddiw-Medi 25ain.,ac mae'r enwau yma o hyd- Llidiart Y Ffair,Cae ceffylau,Y Bedolfa.

Mae'n debygol y buasai'r Porthmyn wedi cerdded o Bontrhydfendigaid i fyny i gyfeiriad Ffair Rhos tuag at Blaenpentre ar eu ffordd o Dregaron dros y mynydd i gyfeiriad Rhaeadr Gwy a Henffordd,ac mae digon o dystiolaeth i brofi hynny.Wrth fynd o Blaenpentre i gyfeiriad y mynydd,roeddent yn galw yn y 'Royal Oak' am lymaid o'r gasgen (Tynfron heddiw),ac yna mynd ymlaen i'r Bedolfa rhyw ddwy filltir i ffwrdd,lle'r oeddent yn pedoli gwyddau yn ogystal a'r gwartheg ar gychwyn eu taith hir i Henffordd ac yn aml i Barnet.